COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES GYNHALIWYD O BELL DRWY MICROSOFT TEAMS YMLAEN DYDD IAU, 9 GORFFENNAF 2026 YN 10:00

Presennol o bell

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | JPD Blundell | N Clarke | P Davies |
| D M Hughes | RM James | W J Kendall | J Llewellyn-Hopkins |
| AJ Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, P Ford, M Lewis ac R Williams

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Wilkinson | Rheolwr Grŵp - Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl |
| Richard Thomas | Swyddog Cynllunio Strategol a Chomisiynu |
| Joe Boyle | Swyddog Comisiynu a Datblygu Gwasanaethau |
| Paul Marchant | Rheolwr Tîm Bywydau a Rennir – Cyngor Bro Morganwg |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiannau

RM James – Eitem 3 - Personol – Gwraig yw Cadeirydd Panel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 72. Bywydau a Rennir

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Diolchodd y Pwyllgor i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth a Gofalwyr Bywydau a Rennir, oedd wedi cael eu gwahodd, am ddod i'r cyfarfod ac am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r trafodaethau<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet, Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. O ystyried bod y Lwfans Tai Lleol (LTLl) wedi cael ei gynllunio i gynnwys y 30% rhataf o eiddo yn yr ardal rentu a'r anghydraddoldeb rhwng rhent rataf y farchnad eiddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r rhent ym Mro Morganwg, mynegodd y Pwyllgor bryder bod trigolion Pen-y-bont ar Ogwr oedd mewn llety preifat dan anfantais, ac **argymhellodd** adolygiad o'r LTLl yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.<br><br>2. Mynegodd y Pwyllgor falchder a diolchgarwch am Wasanaeth Bywydau a Rennir, ei bod yn debygol na wyddai llawer o bobl amdano ac **argymhellodd** y dylid cyflwyno sesiwn friffio i'r Cyngor llawn er mwyn codi ymwybyddiaeth, a allai fod o gymorth i recriwtio mwy o ofalwyr a thyfu'r gwasanaeth.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani**<br><br>3. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith bosibl y newidiadau arfaethedig ar unigolion a gofalwyr Band 1, cydnabu fod dewisiadau i edrych i mewn i'r dull dim niwed yn parhau, **gofynnodd** am roi adroddiad Bywydau a Rennir ar eu Blaenraglen Waith ar gyfer mis Medi a bod y canlynol yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas yr adroddiad:<br><br>a. Manylion y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Tîm Diogelu Ariannol gan gynnwys effaith y newidiadau arfaethedig ar yr incwm fyddai gan unigolion i'w wario a fforddiadwyedd;<br>b. Manylion yr holl newidiadau arfaethedig i'r telerau ac amodau;<br>c. Dadansoddiad cost llawn o gost Lleoliad gyda Bywydau a Rennir o'i gymharu â llety arall fel Byw â Chymorth, ac yn y blaen;<br>d. Y rhesymeg dros ddod â chyfraniadau unigolion i'r un lefel â'r rhai ym Mro Morganwg sy'n |

| | |
|---|---|
| | derbyn lefel uwch o Lwfans Tai Lleol;<br>e. Canlyniad trafodaethau gyda'r adran gyfreithiol ynghylch dull dwy haen posibl i sicrhau nad yw gofalwyr Band 1 dan unrhyw anfantais;<br>f. Manylion ynghylch y modd yr ymgynghorwyd â phob gofalwr a defnyddiwr gwasanaeth a'r ffordd y cafodd yr effaith ar bob un ei chyflwyno iddynt a'i hegluro a'u hymatebion hwythau;<br>g .Y papur ymgynghori a'r holl ymatebion dienw i'r ymgynghoriad fel Atodiad; a<br>h. Meini prawf y Bandio fel Atodiad. |
| Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2026 |

## 73. Diweddariad Rhaglen Gwaith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith (BW) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys adroddiad Bywydau a Rennir yn eu cyfarfod ym mis Medi, yn nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith (BW), fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor, wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. |
| Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2026 |

## 74. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2026 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:52.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**